

Digimap for Schools

Mapiau Cwis y Gorffennol a'r Presennol

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w rhoi'n uniongyrchol i ddisgyblion.

Teitl: **Mapiau Cwis y Gorffennol a'r Presennol**

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
CA3	Lleoli Cymharu	Y DU: cwisiau ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban

Gweithgaredd

Bydd angen dangos lleoliadau ym Mhrydain Fawr ble mae newid bach wedi bod dros amser, gan ddefnyddio haenau'r 1890au a'r haenau modern yn *Digimap for Schools*. Bwriad y gweithgaredd yw annog astudio newid, p'un ai ei fod yn newid cymdeithasol neu ffisegol, ar fapiau, a dysgu mwy am hanes y lleoliad hwnnw.

Cyflwyniad

Mae newid yn digwydd drwy'r amser ac, yn bendant, yn y cyfnod rhwng haen hanesyddol y 1890au a'r map cyfredol. Edrychwch ar 'Metroland' gogledd-orllewin Llundain ar y map modern, yna edrychwch ar fap y 1890au; mae'r gwahaniaeth yn amlwg. Yn debyg, mewn lleoliadau fel Milton Keynes, maent wedi newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth.

Pan fyddwch yn edrych ar lawer o drefi ym Mhrydain Fawr, efallai na fydd y newidiadau yr un mor eithafol, ond byddant yn dal i fod yn arwyddocaol. Gall llinell rheilffordd fod wedi diflannu neu, yn fwy tebygol, maint yr anheddiad wedi cynyddu llawer yn sgil datblygiadau tai ar yr 'cyrion gwledig-drefol'. Ond, beth am y newidiadau mwy cynnil a ddigwyddodd i'r dirwedd? Yn gyffredinol, mae'r rhain yn digwydd yn yr ardaloedd gwledig. Pa newidiadau ffisegol a chymdeithasol sydd wedi digwydd yno, a sut gallwn ddod o hyd iddyn nhw?

Yn y PowerPoint cysylltiedig, rydym wedi dewis 3 lleoliad: un yng Nghymru, un yn Lloegr, ac un yn yr Alban, i archwilio rhai o'r newidiadau hyn.

Ym 1890, roedd yr ardal o gwmpas Saline yn Fife yn rhan o Faes Glo Fifehire. Nid yw'r diwydiant hwn yn bwysig mwyach, felly pa newidiadau a welir yn yr ardal o ganlyniad i hyn?

Mae'r enghraifft yng Nghymru ar hyd Afon Hafren. Mae afonydd yn newid eu llwybr dros amser am amrywiaeth o resymau. Allwn ni weld tystiolaeth o'r newid hwn?

Mae ein henchraifft olaf yn nwyrain Swydd Efrog, yn agos at safle brwydr sy'n angof yn bennaf, gan y caiff ei chysgodi gan frwydr arall a ddigwyddodd y flwyddyn honno. Pa newidiadau y gellir eu gweld yn y lleoliad hwn?

Bydd y newidiadau a archwiliwch yn y tair enghraifft yn cael eu dyblygu ar hyd a lled Prydain Fawr. Yr her i'r myfyrwyr yw dod o hyd i'r newid hwn yn y dirwedd.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Nod yr ymarfer hwn yw profi gallu'r myfyriwr i adnabod newid. Darperir casgliad bach o 10 cwestiwn sy'n gysylltiedig â'r lleoliadau ar y map/mapiau, felly nid yw hon yn rhestr gyflawn o newidiadau. Dylai'r myfyriwr geisio dod o hyd i'r atebion ar gyfer y cwestiynau ac yna mynd gam ymhellach trwy chwilio am newid arall.

I gymryd rhan, dylai'r myfyriwr naill ai:

- Argraffu'r ddau fap ar gyfer y lleoliad; neu
- Agor *Digimap for Schools* a llywio i'r lleoliad ar y map gan ddefnyddio enw lle. Dylid cloio i oddeutu maint canol hyd nes bod y map a ddangosir yr un peth â'r un yn y PowerPoint.



- Gan ddefnyddio'r offeryn sgrolio hanesyddol, symudwch rhwng yr haen fodern a haen y 1890au, i'w helpu i ddod o hyd i atebion.



Darperir atebion awgrymedig i'r cwestiynau ar y PowerPoint, a allai gael ei ddefnyddio i ddangos y newidiadau yn yr ystafell ddosbarth.

Mynd gam ymhellach

- Crëwch eich enghraifft eich hun ar gyfer eich tref leol neu'r ardal o gwmpas yr ysgol, fel rhan o unrhyw astudiaeth leol o'ch ardal.
- Crëwch enghraifft o ardal sydd â nodweddion tebyg i bwnc rydych yn ei astudio e.e. hen ardal lofaol neu ardal lofaol bresennol, neu ardal amaethyddol.
- Gofynnwch i'r myfyriwyr greu enghraifft ar gyfer ardal o'u dewis, er mwyn iddyn nhw allu profi aelodau eraill y dosbarth.

Ym mhob achos, anelwch at greu **10 cwestiwn**, ar lefelau gwahanol o anhawster. Gallai rhai ofyn am gyfeirnodau grid, gallai rhai brofi ystyr symbolau map, a gallai rhai ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir ar ffurfiau eraill. Mae'n ffordd dda o atgoffa disgyblion bod y ffordd y mae mapiau'n cael eu creu yn newid dros amser hefyd.

Dolenni ar y we

- Mae amrywiaeth o gemau sy'n gysylltiedig â mapiau ar gael ar wefan Geograph, sy'n rhoi cipolwg ar y defnydd tir gwahanol sydd yno: <http://www.geograph.org.uk/games/>
- Profwch eich gwybodaeth am leoliad trwy ddefnyddio GeoGuessr: <https://geoguessr.com/uk> neu *Locate Street*
- Rhowch god post yn HistoryPin a chewch wybod mwy am ei hanes. Cyfrannir at yr adnodd hwn gan gymuned gynyddol o 'binwyr' (*'pinner'*): <https://www.historypin.org/>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_uwchradd
f1.1 Gorffennaf 2014


EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Creu map 'Y Gorffennol a'r Presennol'

Byddwch yn creu eich map cwis y gorffennol a'r presennol eich hun.



Gan ddefnyddio *Digimap for Schools*, bydd angen i chi leoli'r man dan sylw ar fap sydd wedi'i glosio i raddfa ganolig.



Bydd angen i chi glosio a gwneud yn siŵr bod y llithrwr hanesyddol ar gael.

Edrychwch ar y map modern a map y 1890au, i amlygu'r newidiadau rhyngddynt. Gallwch wneud hyn trwy argraffu'r ddau fap a'u hastudio, ochr yn ochr, neu yn *Digimap for Schools* gan symud rhwng y ddwy haen.

Ysgrifennwch eich cwestiynau am y newidiadau rydych chi wedi'u canfod, a rhestrwch eich atebion ar wahân.

Penderfynwch sut hoffech gyflwyno mapiau 'y gorffennol a'r presennol' i fyfyrwyr eraill:

1. I greu sleidiau PowerPoint o'ch mapiau:

- Yn *Digimap for Schools*, dewiswch ffeil argraffu 'JPG' a'i chadw yn lle ei hargraffu'n uniongyrchol, yna rhowch y ffeil darlun ar sleid PowerPoint; neu
- Os hoffech ddefnyddio detholiad llai na ffeil argraffu arferol, defnyddiwch *Print screen* neu *PrtSc* ar eich bysellfwrdd i ddewis y ddelwedd ar y sgrin a'i phastio yn Paint. Torrwch allan y darn o'r map rydych chi ei angen, cadwch hwn, a'i osod fel darlun ar sleid PowerPoint. Gwnewch hyn ar gyfer map y 1890au a'r map modern.

2. Fel arall, gallwch greu mapiau papur unigol gan ddefnyddio'r nodwedd argraffu yn *Digimap for Schools*.